SESIWN GYMRAEG 4: GWNEUD DEWISIADAU ANODD

Ystod oedran: 11-16 oed

Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn defnyddio 'dirgelwch darllen' i ddatblygu eu gallu i ddod i gasgliadau, cyfeirio at dystiolaeth mewn testun a thynnu ar eu gwybodaeth am ddiben a chyd-destun ysgrifennu i gefnogi dealltwriaeth. Mae'r dirgelwch darllen yn archwilio rhesymau pam y gallai teulu yn Telangana benderfynu mudo o gefn gwlad i'r ddinas. Bydd dysgwyr yn gorffen drwy ddarllen astudiaeth achos o Naresh a'i deulu i'w helpu i ddeall a dangos empathi tuag at deulu sydd wedi wynebu materion tebyg.

Amcanion dysgu
- Datblygu sgiliau darllen a deall, gan gyfeirio at dystiolaeth a dod i gasgliadau o destun.
- Trafod syniadau ag eraill mewn grŵp.
- Cydnabod pam y gallai teuluoedd yn Telangana fudo o ardal wledig i'r ddinas.
- Datblygu empathi a dealltwriaeth o'r heriau y gallai rhai teuluoedd yn Telangana eu hwynebu.

Deilliannau dysgu
- Bydd y dysgwyr yn gwella eu dealltwriaeth o destunau drwy ystyried pwrpas a chyd-destun.
- Bydd y dysgwyr yn dod i gasgliadau ac yn dod o hyd i dystiolaeth ategol.
- Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau gydag eraill ac yn gwneud penderfyniadau fel grŵp.
- Bydd y dysgwyr yn datblygu empathi a dealltwriaeth o pam y gallai teuluoedd fudo o ardaloedd gwledig i'r ddinas a'r heriau y gallai teuluoedd eu hwynebu wrth wneud hynny.

Cwestiynau allweddol
- Pam yr ydych yn meddwl bod teulu Naresh wedi penderfynu mudo i Hyderabad?
- A oeddech yn teimlo'n rhwystredig ar unrhyw adeg yn y gweithgaredd?
- A ydych yn meddwl bod gan y teulu unrhyw ddewis ynglŷn â benthyca arian? Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym am sut y mae dyled yn effeithio ar bobl, yn enwedig plant?
- Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym o ran pam mae pobl yn mudo?

Adnoddau
- *Sioe sleidiau Cymraeg B* (sleidiau 8–11)
- Taflenni adnoddau:
  - *Dyma Naresh 1* a *2*
- Taflenni gweithgaredd:
  - *Gwneud dewisiadau anodd 1* a *2*
  - *Ystyried sefyllfa Naresh*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Noder:

- *Gyda diolch i Gronfa Achub y Plant, mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u haddasu'n ofalus gan ddefnyddio'r adnodd canlynol:* Young Lives, Global Goals; Children, Poverty and the UN Millennium Development Goals*, Save the Children, 2005. © Achub y Plant.*
- *Awgrymiadau yn unig yw'r gweithgareddau a'r adnoddau hyn i gefnogi eich dulliau addysgu yn hytrach na'u harwain.* Gall fod angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.

Gweithgaredd 4.1 (60 mun)

Gwneud dewisiadau anodd

- *Dangoswch sleid 9 o sioe sleidiau Cymraeg B. Bydd y dysgwyr wedi cael eu cyflwyno i Elmer yn y sesiwn gyflwyno a sesiynau Cymraeg 1 a 2. Atgoffwch y dysgwyr fod Elmer yn byw gyda'i chwaer hŷn yn Lima, prifddinas Periw. Anfonwyd Elmer i'r ddinas o'i bentref er mwyn iddo allu mynd i'r ysgol uwchradd.*
- *Eglurwch fod llawer o deuluoedd ym mhob un o bedair gwlad Young Lives yn dewis symud o ardaloedd gwledig i fyw yn y ddinas. Trafodwch y cwestiynau canlynol:*
    - *Pam yr ydych yn meddwl y gallai teulu benderfynu symud i'r ddinas?*
    - *A ydych yn meddwl y bydd ansawdd bywyd yn well yn y ddinas neu mewn ardal wledig? Sylwer y gallai dysgwyr fod wedi ymchwilio i effeithiau lleoliad daearyddol (trefol neu wledig) ar fywyd bob dydd, addysg ac iechyd mewn Daearyddiaeth sesiwn 5, sesiwn Mathemateg 3 a sesiwn Mathemateg 4.*
    - *Pa heriau yr ydych yn meddwl y gallai teuluoedd eu hwynebu pan fyddant yn mudo i'r ddinas o ardal wledig?*
- *Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm i ddarganfod mwy am pam y gallai pobl benderfynu mudo o ardaloedd gwledig i'r ddinas a'r dewisiadau anodd y mae'n rhaid iddynt eu gwneud yn aml.*
- *Trefnwch y dysgwyr yn barau a dosbarthwch gopïau o Gwneud dewisiadau anodd 1 a 2. Dywedwch wrth y dysgwyr i ddychmygu eu bod yn rhan o deulu sy'n byw yng nghefn gwlad Telegana. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i drafod y materion a gwneud dewisiadau. Wrth i ddysgwyr wneud dewisiadau, dylent ysgrifennu llythyrau'r blychau y maent yn ymweld â nhw, er enghraifft A →I →E→ P. Anogwch y dysgwyr i wneud eu dewisiadau'n gymharol gyflym. Os oes angen, eglurwch beth yw ystyr dyled a llog.*
- *Unwaith y bydd y dysgwyr yn cyrraedd diwedd y gweithgaredd, rhowch ddalen fawr o bapur siwgr i bob pâr a gofynnwch iddyn nhw ddyfeisio siart llif i gofnodi eu dewisiadau'n fanwl. Gan ddefnyddio dau feiro lliw gwahanol, dylai'r dysgwyr ysgrifennu'r wybodaeth ganlynol ym mhob rhan o'r siart llif:*
    - *Y materion a godwyd a'r dewis a wnaed – gan ddefnyddio'r beiro lliw cyntaf.*
    - *Yr effeithiau gwirioneddol a phosibl ar blant yn y teulu – gan ddefnyddio'r ail feiro lliw.*
- *Efallai y bydd angen i chi fodelu'r broses o greu siart llif fel bod y dysgwyr yn deall yn llawn yr wybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei chofnodi. Ceir enghraifft o ddechrau siart llif isod.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.



- Dewiswch rai dysgwyr i rannu eu dewisiadau a'r effeithiau ar y plant gyda gweddill y dosbarth. Byddai'n dda cael ystod o ganlyniadau gwahanol. Anogwch y dysgwyr i wneud sylwadau beirniadol drwy drafodaeth dosbarth ar y dewisiadau a wneir a'r senarios dilynol.
- Er enghraifft, mae'n bosibl bod rhai dysgwyr wedi dewis y senario canlynol: A→ P→ L→ B→ K→ O→ G →M →Q→ C→ M→ Q. Efallai eu bod wedi teimlo'n rhwystredig gyda'r senario hwn a'i natur gylchol (y ffaith nad oes diwedd arno). Trafodwch gyda'r dysgwyr cyn lleied o ddewisiadau oedd gan y teulu ac effaith gynyddol y ddyled. Gallech ofyn y cwestiynau canlynol:
  - *A oeddech yn teimlo'n rhwystredig ar unrhyw adeg yn ystod y gweithgaredd?*
  - *A ydych yn meddwl bod gan y teulu unrhyw ddewis ynglŷn â benthyca arian?*
  - *A ydych yn meddwl y byddan nhw'n gallu ad-dalu'r ddyled?*
  - *Beth fydd yn digwydd i'r teulu y tro yn eich barn chi?*
  - *Sut yr ydych yn meddwl y bydd y plant yn dioddef o ganlyniad i'r ddyled hon?*
  - *A ydych yn meddwl y dylai'r llywodraeth helpu pobl sydd mewn dyled?*
  - *Faint o ddewisiadau oedd y teulu'n gallu eu gwneud mewn gwirionedd?*
  - *Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym o ran pam mae pobl yn mudo?*
  - *Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym o ran pam mae pobl mewn dyled yn y pen draw?*
  - *Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym am sut y mae dyled yn effeithio ar bobl, yn enwedig plant?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 4.2 (30 mun)

Pam y bu i deulu Naresh symud i Hyderabad?

- Dosbarthwch gopïau o *Dyma Naresh 1 a 2.* Eglurwch mai bachgen ifanc o dalaith Telangana yw Naresh a fu'n rhan o'r prosiect Young Lives. Ysgrifennwyd yr astudiaeth achos hon yn 2004, pan oedd Naresh yn wyth mlwydd oed.
- Dangoswch sleid 10 a gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen testun *Dyma Naresh*. Trafodwch syniadau cychwynnol y dysgwyr ynghylch pam y penderfynodd teulu Naresh fudo i Hyderabad, yr heriau y maent wedi'u hwynebu a sut beth yw ansawdd eu bywyd.
- Dangoswch sleid 11 a rhowch gopi o *Ystyried sefyllfa Naresh* i bob dysgwr. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu atebion i'r cwestiynau. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio tystiolaeth o'r testun i gyfiawnhau eu syniadau.
- Trafodwch syniadau'r dysgwyr fel dosbarth cyfan. Efallai y gallech ofyn y cwestiynau canlynol:
    - A ydych yn meddwl bod teulu Naresh wedi gwneud y penderfyniad cywir i symud i'r ddinas? Pam, neu pam ddim?
    - Pa broblemau sy'n cael eu hachosi mewn ardaloedd gwledig gan bobl sy'n gadael i fynd i'r ddinas?
    - A ydych yn meddwl bod mudo o ardaloedd gwledig i ardaloedd dinesig yn broblem yng ngwledydd eraill Young Lives? A ydych yn meddwl ei fod yn broblem yn y DU? Pam yr ydych yn meddwl hyn a sut y gallech gael rhagor o wybodaeth?

Syniadau Pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn arweinydd pentref yn Telangana sy'n poeni am deuluoedd yn gadael y pentref i'r ddinas. Gallai dysgwyr ysgrifennu llythyr at lywodraeth y wladwriaeth yn gwneud cynnig realistig i gadw pobl yn y pentref, er enghraifft drwy adeiladu mwy o ysgolion mewn ardaloedd gwledig.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu bod tad Naresh yn cael damwain yn y gwaith. Trafodwch opsiynau posibl teulu Naresh ar gyfer ei drin a pharhau i gynnal a chadw'r cartref.

Telerau defnyddio

Nodwch y daw'r gweithgaredd hwn o *Young Lives, Global Goals: Children, Poverty and the UN Millennium Development Goals*, Achub y Plant, 2005. © Achub y Plant

Hawlfraint © Oxfam GB/Young Lives

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Young Lives. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Gwneud dewisiadau 1

DECHREUWCH YMA

A
Rydych yn ffermwr sy'n byw mewn pentref yn India gyda'ch gwraig a'ch dau blentyn. Mae bywyd yn anodd; rydych yn ffermio llain fach o dir ond mae diffyg glaw am bedair blynedd yn golygu nad ydych wedi gallu cynhyrchu digon i fwydo eich teulu. Symudodd ffrind i'r ddinas yn ddiweddar a chlywch fod ganddo dŷ brics, gwaith sy'n talu'n dda ac ysgol dda i'w blant. Byddech wrth eich bodd i'ch teulu gael bywyd gwell ac rydych yn dechrau credu y gallai'r ddinas gynnig hyn i chi. Mae gennych ddigon o arian ar gyfer y tocyn bws i'r ddinas. A ddylech chi symud?

Os penderfynwch aros yn y pentref, ewch i **I.**

Os penderfynwch symud i'r ddinas, ewch i P.

B
Rydych yn ei chael yn anodd ad-dalu'r arian a fenthycwyd gennych ar gyfer y tŷ.

Os ydych wedi cael llond bol ac yn penderfynu dychwelyd i'ch pentref, ewch i **H**.

Os ydych yn meddwl bod y problemau hyn yn rhai dros dro a byddwch yn eu datrys mewn pryd, ewch i **K**.

C
Nid yw wythnos newydd wedi dod â gwell lwc i chi. Gwyddoch fod eich plant yn mynd i'r gwely'n llwglyd. Mae'n torri eich calon, ond beth allwch chi ei wneud?

Rydych yn parhau i weithio mor galed ag y gallwch. Ewch i **M**.

D
Rydych yn tynnu eich plant allan o'r ysgol. Mae gennych ychydig mwy o arian bob wythnos, ond rydych yn bryderus iawn am y dyfodol. Roeddech wedi gobeithio y byddai eich plant yn gallu darllen ac ysgrifennu ac ennill cyflogau da mewn swyddi da. Mae eich gobeithion yn cael eu chwalu: credwch fod addysg, eu hunig ddihangfa bosibl o fywyd o dlodi parhaus, wedi'i chymryd oddi arnynt. Er mwyn gwneud pethau'n waeth, yr ydych yn dal mewn dyled.

Y DIWEDD

E
Gyda'ch arian olaf rydych yn prynu hadau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ond mae gwyntoedd cryf a glaw trwm yn dinistrio llawer o'ch cnwd. Bydd y cynhaeaf yn para wythnosau i chi yn hytrach na misoedd. Mae angen arian arnoch ond ychydig iawn sydd yn y pentref. Os byddwch yn aros, efallai y bydd eich teulu'n llwgu.

Nid oes gennych ddewis yn awr. Nid oes dyfodol i chi yma. Rhaid i chi feddwl am eich teulu a dod o hyd i waith yn y ddinas. Ewch i P.

F
Mae bywyd yn her i sgwatiwr. Nid oes gennych hawl gyfreithiol i fod yma a gallech gael eich troi allan ar unrhyw adeg. Mae'r dŵr wedi'i ddatgysylltu, sy'n golygu mai'r unig le y gallwch gael dŵr o hyn ymlaen yw'r nant. Mae'r nant yn llygredig iawn ac rydych yn poeni y byddwch chi neu'ch plant yn dal rhywbeth. Mae eich rheolwr yn dweud bod ei gynnig o 10,000 rwpî i adeiladu tŷ priodol mewn ardal braf yn parhau i fod ar gael. Cewch eich temtio'n faw. Er y byddwch mewn dyled, byddai gennych o leiaf rywle teilwng i fyw ynddo.

Os byddwch yn penderfynu manteisio ar y benthyciad 10,000 rwpî, ewch i **L**.

Os byddwch yn penderfynu parhau'n sgwatiwr a gobeithio y bydd pethau'n gwella, ewch i **N**.

Ewch i **J** os ydych wedi cael digon o'r ddinas ac eisiau dychwelyd i'ch pentref genedigol.

G
Rydych wedi cymryd benthyciad arall, sydd wedi golygu y gall eich plant fynd i'r ysgol am flwyddyn arall. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddewis pa un o'ch plant sy'n mynd i'r ysgol. Fodd bynnag, mae eich dyled wedi cynyddu ac felly hefyd eich treuliau. Nid ydych yn siŵr sut y byddwch yn talu'r benthyciad gwreiddiol yn ôl. Mae'r ddyled newydd hon wedi gwneud eich pryderon ariannol hyd yn oed yn waeth.
Rydych yn teimlo'n gaeth ac nid oes gennych unrhyw ddewisiadau. Ewch i **M**.

H
Wrth ddychwelyd i'ch pentref genedigol rydych yn gweld bod teulu eich cymydog wedi meddiannu eich tai a'ch tir.

Nid oes gennych ddewis. Rhaid i chi ddychwelyd i'ch tŷ, swydd a dyled yn y ddinas. Ewch i **K**.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Gwneud dewisiadau anodd 2

I

Mae'r glaw trwm wedi taro'r ardal unwaith eto, ac mae'r cynhaeaf wedi bod yn siomedig iawn. Ffermio yw'r unig beth rydych yn ei wybod ac rydych yn gobeithio y bydd pethau'n gwella'n fuan.

Os ydych yn dymuno aros yn eich pentref, ewch i **E**.

Os ydych yn meddwl mai digon yw digon ac yn dymuno mynd i'r ddinas i ddod o hyd i swydd, ewch i **P**.

J

Rydych yn cyrraedd yn ôl yn eich pentref ac yn synnu o weld bod eich tir bellach yn cael ei ddefnyddio gan eich perthnasau. Ni fydd eich teulu estynedig yn cefnogi eich hawliad oherwydd eich bod wedi dewis gadael y pentref. Heb dir ni allwch aros yn y pentref.

Rhaid i chi ddychwelyd i'r ddinas a manteisio ar gynnig eich rheolwr o fenthyciad. Ewch i **L**.

K

Yr ydych yn cael trafferth gydag ad-daliadau benthyciadau. Un ffordd o sicrhau bod y plant yn bwyta digon yw mynd â nhw allan o'r ysgol a gwario'r ffioedd ar fwyd ac ad-dalu'r benthyciad. Os byddwch yn gwneud hyn, bydd eich plant yn anllythrennog (yn methu darllen ac ysgrifennu) fel chi. Teimlwch y byddwch yn eu condemnio i fywyd o drafferthion a thlodi. Mae hwn yn benderfyniad anodd iawn.
Os byddwch yn penderfynu gwario ffioedd yr ysgol ar y ddyled a gwell bwyd yna ewch i **D**.
Fodd bynnag, os mai addysg eich plant yw eich prif flaenoriaeth, ewch i **O**.

L

Bydd yr arian rydych wedi'i fenthyg yn prynu digon o dir a deunyddiau adeiladu ar gyfer tŷ eithaf bach. Rydych yn adeiladu eich tŷ eich hun, gyda rhywfaint o help gan eich cymdogion a'ch plentyn hynaf. Chi bellach yw 'perchennog' tŷ bach unllawr, tair ystafell, ond mae eich brwdfrydedd yn cael ei lesteirio gan y benthyciad enfawr sydd uwch eich pen. Bydd yn rhaid i chi ad-dalu symiau mawr bob wythnos dim ond i dalu'r llog.

Ewch i **B**.

M

Mae arian yn dynn iawn; rydych newydd lwyddo i dalu eich rhandaliad wythnosol ar y benthyciad a chael ychydig ar ôl ar gyfer bwyd. Mae wir angen dillad newydd ar eich plant, ond bydd yn rhaid i hynny aros am gyfnod arall. O leiaf maent yn yr ysgol ac yn dysgu. Un diwrnod gallent gael swydd dda a gofalu amdanoch.

Ewch i **Q**.

N

Rydych yn parhau i sgwatio, ond mae'r amodau anniogel wedi gwneud eich plentyn ieuengaf yn beryglus o wael a rhaid i chi symud allan. Unwaith eto, mae eich rheolwr yn cynnig benthyciad i chi brynu tŷ mewn cymdogaeth lawer glanach. Dydych chi ddim eisiau mynd i ddyled ond mae iechyd eich plant yn bwysicach.

Os byddwch yn penderfynu derbyn y benthyciad, ewch i **L.**

Os byddwch yn penderfynu peidio â derbyn y benthyciad ond i ddychwelyd i'ch pentref cartref, ewch i **J.**

O

Rydych yn teimlo eich bod wedi gwneud y penderfyniad cywir; bydd yn rhaid i chi a'ch plant aberthu nawr er mwyn cael gwell dyfodol. Fodd bynnag, mae eich penderfyniad wedi achosi problemau ar unwaith. Mae eich merch yn sâl, efallai oherwydd nad yw'n bwyta bwyd iawn. Yr ydych wedi gorfod gwario ffioedd ysgol y plant ar feddyginiaeth. O ble y byddwch yn dod o hyd i ffioedd yr ysgol o hyn ymlaen? Mae ffrind yn awgrymu benthyca arian o'ch pentref genedigol ond prin y gallwch fforddio'r ad-daliadau ar y benthyciad cyntaf. Mae'n ddigon posibl y bydd yn rhaid i chi dynnu eich plant allan o'r ysgol wedi'r cyfan.

I fenthyg mwy o arian, y tro hwn o'ch pentref genedigol, ewch **i G**.

I fynd â'ch plant allan o'r ysgol, ewch i **D.**

P

Rydych yn symud i'r ddinas, gan adael eich teulu ar ôl yn y pentref am y tro. Yn ffodus, rydych yn dod o hyd i rywfaint o waith adeiladu. Mae'n anodd ac yn talu'n wael ond o leiaf gallwch brynu bwyd i'ch teulu. Rydych yn gofyn iddyn nhw ddod atoch i fyw. Ble yr ydych yn mynd i fyw? Mae eich rheolwr yn dweud y bydd yn rhoi benthyg 10,000 rwpî l i chi, dim ond digon i brynu tir ac adeiladu tŷ mewn ardal gyda dŵr, glanweithdra rhesymol a ffyrdd da. Fodd bynnag, bydd ad-dalu'r llog yn golygu defnyddio bron y cyfan o'ch cyflog. Mae ffrind yn awgrymu symud i sgwat. Nid oes ganddo unrhyw ffyrdd, glanweithdra na ffynhonnell ddŵr gyfagos; mae'n arogli o sbwriel sy'n pydru; bydd eich tŷ yn cael ei adeiladu allan o beth bynnag y gallwch ddod o hyd iddo. Ond o leiaf ni fyddwch yn mynd i ddyled.

I adeiladu ar y sgwat a pheidio â mynd i ddyled, ewch i **F**.

I gael benthyciad i adeiladu tŷ newydd yn yr ardal fwy dymunol, ewch i **L**.

Q

Rydych yn gweithio pob awr posibl. Nid ydych yn gweld eich teulu gymaint ag yr hoffech. Nid oes gennych fawr o ddewis ond parhau i weithio'n galed a gobeithio y bydd yr wythnos nesaf yn dod â gwell lwc.

Dim penderfyniadau i'w gwneud yma. Ewch **i C**.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Dyma Naresh 1 — India

Noder: Cafodd yr wybodaeth hon ei chasglu gan Naresh a'i deulu yn 2004, pan oedd yn wyth oed ac yn byw yn Hyderabad, prifddinas Telangana yn ne India.

Cartref a chymdogaeth Naresh

Mae Naresh yn byw gyda'i fam, tad, brawd iau Durga a chwaer iau Ammu yn Peddamma Nagar. Slym yw Peddamma Nagar yng ngogledd-ddwyrain Hyderabad. Golyga slym sefydlog ardal ble mae pobl wedi adeiladu tai parhaol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dai brics neu gerrig unllawr.

Sefydlwyd Peddamma Nagar tua saith mlynedd yn ôl ac erbyn hyn mae tua 2,000 o dai yno. Hindŵiaid yw'r rhan fwyaf o deuluoedd ond mae rhai Mwslimiaid hefyd. Mae'r trigolion yn fudwyr o ardaloedd cyfagos Telangana. Mae'n rhanbarth arid; mae'n boeth iawn yn yr haf ac yn aml nid oes llawer o ddŵr i dyfu cynnyrch nac ar gyfer bwydo da byw.

Cydnabyddiaeth y llun: Gary

Gan fod yr ardal hon yn agos at Hyderabad, mae'n gartref i weithwyr adeiladu sy'n gweithio yn y ddinas. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yma wedi mudo o'u pentrefi am nad oeddent yn gallu dod o hyd i waith yno. Ymfudodd tad Naresh yma gyda'i frodyr 15 mlynedd yn ôl (o bentref Attili, 300 km i ffwrdd) ac arhosodd ym Mryniau Gayathri gerllaw. Pan gyrhaeddon nhw am y tro cyntaf doedd dim ffyrdd a doedd gan lawer o dai ddim toiledau.

Ar ôl i fam a thad Naresh briodi, roeddent wedi symud i Peddamma Nagar, prynu rhywfaint o dir ac adeiladu tŷ arno. Mae ganddynt ddwy ystafell, cegin, toiled ac ystafell ymolchi wedi'i hadeiladu o frics. Mae'r llawr yn goncrit. I adeiladu'r tŷ, cymerodd rhieni Naresh fenthyciad o 10,000 rwpî (tua £100) o bentref ei dad a hefyd gan reolwr ei dad. Bob wythnos maen nhw'n ad-dalu rhywfaint o'r benthyciad ond yn ei chael hi'n anodd iawn. Eglura tad Naresh "Rydym yn ad-dalu'r llog yn unig oherwydd holl dreuliau'r plant." Mae 8,000 rwpî ar ôl i'w dalu.

Mae bywyd wedi gwella i'r rhan fwyaf o bobl yn Peddamma Nagar dros y blynyddoedd diwethaf. Arferai fod carthffosydd agored ond yn ddiweddar gosodwyd pibellau draenio. I lawr y ffordd o dŷ Naresh mae rhai siopau sy'n gwerthu melysion a nwyddau cyffredinol, a bwth ffôn.

Ysgol

Nid yw llawer o'r plant yn Pedamma Nagar yn mynd i'r ysgol gan nad yw eu rhieni'n gallu ei fforddio. Mae plant yn aml yn gweithio i ennill arian i'r teulu. Mae ysgol Naresh yn breifat, felly mae'n rhaid i rieni dalu, ond mae'r llywodraeth yn gofyn i'r ysgol annog rhieni i anfon eu plant yno, hyd yn oed os na allant fforddio talu dim. Mae athrawon yn ymweld â'r teuluoedd os bydd y plant yn rhoi'r gorau i'r ysgol. Mae'r ysgol yn talu am ffioedd llyfrau plant os na all y teulu eu fforddio. "Rydyn ni'n gofyn iddyn nhw dalu ffi'r ysgol yn unig," meddai'r pennaeth. "Gymaint ag y gallant ei fforddio."

Mae gan ysgol Naresh, Ysgol Uwchradd Little Star, rhwng 600 a 700 o ddysgwyr, gyda 35 i 40 ym mhob dosbarth. Does dim rhaid i'r plant wisgo gwisg ysgol os na all eu rhieni ei fforddio.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dyma Naresh 2 India

Diwrnod Naresh

Mae Naresh yn codi tua 6.30am ac mae ei dad, Sreenu, yn mynd ag ef i'r ysgol ar ei feic. Mae'r ysgol yn dechrau am 9.30am ac mae'n dychwelyd am 4.00pm. Mae'n astudio Saesneg, Hindi a Telugu yno. Yn ystod amser chwarae mae'n hoffi chwarae criced gyda'i ffrindiau.

Rhwng 4.00pm a 5.00pm mae'n cael bwyd, sef reis gyda *dal* (ffacbys). Rhwng 5.00pm a 7.00pm mae'n mynd am hyfforddiant ychwanegol. Ar ôl 7.00pm, mae'n gwneud ei waith cartref o'r ysgol ac o'i hyfforddiant. Mae'n cwyno am y ffaith ei fod yn astudio cymaint ac yn dweud nad yw am gael swydd pan fydd yn tyfu i fyny.

Weithiau, cyn ac ar ôl ysgol, mae Naresh yn gofalu am ei frawd a'i chwaer tra bo ei fam, Nagalakshmi, yn gwneud rhywfaint o waith tŷ. Mae'n nôl dŵr o'r ffynnon neu'r tanc dŵr cyfagos mewn potiau. Os yw'n dod â dŵr o'r tanc, sy'n cael ei lenwi'n ddyddiol gan y lori ddŵr, rhaid iddi dalu ac mae'n cael pedwar neu efallai bum pot y dydd. Mae pawb yn cael yr un faint. Mae hi'n defnyddio dŵr y ffynnon i olchi. Dyma'r unig ffynhonnell naturiol yn yr ardal. Yn ystod y tymor glawog mae'n llawn, ond yn ystod yr haf mae'r dŵr tanddaearol yn isel iawn. Yna mae'n defnyddio mygiau i gasglu'r dŵr sydd rhwng y creigiau mawr ac yn llenwi ei photiau felly. Mae'n cymryd rhwng 30 munud ac awr i gasglu pedwar i bum pot fel hyn. Defnyddir y dŵr yma hefyd ar gyfer gwaith adeiladu. Mae rhai pobl bellach wedi cloddio eu ffynhonnau eu hunain ger eu cartrefi, ond mae rhai'n sych.

Teulu Naresh

Mae tad Naresh yn saer maen yn ninas Hyderabad, ac mae'n gweithio i gontractwr. Mae'n ennill 150 rwpî (tua £1.50) y dydd ac yn cael ei dalu'n wythnosol. Weithiau gall gael blaenswm gan ei feistr. Pan ddaeth i'r ddinas gyntaf roedd yn llafurwr cyffredinol a oedd yn cymysgu sment. Yn ddiweddarach dysgodd i fod yn saer maen. Mae tad Naresh yn gadael y cartref am 8.00am ac yn beicio 3 km i'r gwaith. Mae'n dychwelyd tua 8.00pm. Mae ganddo ddydd Sul ac ambell hanner diwrnod i ffwrdd.

Roedd mam Naresh, Nagalakshmi, yn difaru gadael eu pentref ond yn sylweddoli nad oedd ganddynt fawr o ddewis. "Oedd, roedden ni'n teimlo'n ddrwg yn gadael ein pentref, roedd hyd yn oed ein rhieni'n teimlo'n ddrwg. Nid oeddem yn gallu gwneud unrhyw arian yna felly daethom yma. Roeddem wedi benthyca arian ac adeiladu'r tŷ hwn."

Does gan y teulu ddim tir yn y pentref felly ni allant ddychwelyd. Teimlant fod yn rhaid iddynt aros yn Pedamma Nagar fel y bydd eu plant yn cael addysg dda a swyddi da. Ond mae gwneud yn siŵr bod y plant i gyd yn mynd i'r ysgol yn anodd i'r teulu. Mae'n costio 300 rwpî y mis i anfon y ddau fab i'r ysgol breifat – ynghyd â llyfrau a gwisg ysgol – ac weithiau maent yn talu dau neu dri mis yn hwyr.

Yn ddiweddar, prynodd tad Naresh rai llyfrau ysgol ar ei gyfer ac roedd yn costio 390 rwpî. Roeddent wedi dewis addysg breifat ar gyfer Naresh gan fod ysgol y llywodraeth ymhellach i ffwrdd ac am nad oedd ei gefndryd wedi cael amser da yno.

Mae mam Naresh wedi bod adref yn ddiweddar i'w pentref i gael meddyginiaeth ar gyfer haint gan ei fod yn rhatach nag ydyw yn y ddinas. Ond ar gyfer afiechydon mawr maen nhw'n defnyddio'r ysbyty preifat oherwydd ei fod yn agos, er yn ddrutach.

Gall arian fod mor dynn fel nad oes gan Naresh a'i deulu ddigon i'w fwyta. "Weithiau rydyn ni'n benthyg arian o'm pentref ac felly mae bywyd yn mynd ymlaen," esbonia ei fam. "Pwy a ŵyr o ran y dyfodol? Ar hyn o bryd mae'n iawn, roeddem wedi benthyca arian o'r pentref a thalu eu ffioedd ysgol."

Mae addysgu'r plant yn flaenoriaeth i deulu Naresh. "Bydd fy mhlant yn hapus yn y dyfodol – dyna pam rydyn ni'n eu haddysgu," meddai tad Naresh. "Byddan nhw'n cael swydd dda yn dibynnu ar eu cymwysterau. Yn hytrach na gwneud gwaith llaw caled, gallent weithio fel mecanig neu wneud rhywfaint o waith haws arall. Rydw i'n eu haddysgu fel y gallant wneud gwaith gwell." Pan fydd chwaer Naresh, Ammu yn hŷn, mae ei dad hefyd am ei haddysgu fel ei bod hi hefyd yn cael bywyd gwell.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Ystyried sefyllfa Naresh

• Yn eich barn chi, pam y penderfynodd teulu Naresh symud i Hyderabad?
• Pa broblemau y mae teulu Naresh yn eu hwynebu wrth symud i Hyderabad?
• Yn eich barn chi, ydy ansawdd eu bywyd wedi gwella ers symud i Hyderabad?
• Yn eich barn chi, a oedd gan deulu Naresh unrhyw ddewis arall heblaw am fenthyca arian?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.